



Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Cenedlaethol
Clwydian Range
and Dee Valley
National
Landscape



Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Draphontydd a Thwneli

Pecyn Dawnsio Dyffryn Dyfrdwy - Arweiniad i Athrawon

Amcanion Dysgu

Coreograffi mewn grŵp, motiff (dywediad symud) sy'n 8 curiad o hyd.

Meini Prawf Llwyddiant

- Gwrandewch ar y gerddoriaeth a gyda'ch gilydd cyfrwch guriadau'r gerddoriaeth sy'n ailadrodd ei hun.
- Gweithio gydag eraill i greu a pherfformio.
- Ystyried y siapiau sy'n cael eu hailadrodd yn y traphontydd a'r synau sy'n cael eu hailadrodd yn y gerddoriaeth.

Amser ar gyfer y gweithgaredd

1 Gwers yn yr Ystafell Ddosbarth
1 Gwers Cerddoriaeth a Symudiad

Lleoliad

Gofod Agored yn y neuadd neu du al

Adnoddau

- Peli
- Delweddau o Draphont Pontcysyllte
- **Cerddoriaeth:** Happy gan MBB & Guardians at the gate gan Kevin Rix, Audiomachine

Y Briff ar gyfer yr Athro

Gweithgareddau Cychwynnol

- Gweithio trwy'r Dreftadaeth Adeiledig: PowerPoint Gwers Ystafell Ddosbarth ar Draphontydd a Thwneli





Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd
Cenedlaethol

Clwydian Range
and Dee Valley
National
Landscape



Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Cynhesu Cyn Cychwyn

Twnnel y Waun

Dylid atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd cynhesu cyn dechrau ymarfer corff. **Cerddoriaeth:** Happy gan MBB.

- Os ydi'n bosib trefnu grwpiau o'r un maint gofynnwch i fyfyrwyr sefyll mewn llinell syth a chreu siâp twnnel trwy osod dwylo a thraed ar y llawr (V wyneb i lawr).
- Mae'r unigolyn ar ddiwedd y llinell yn cropian trwy'r 'twnnel' ac unwaith y byddan nhw wedi cyrraedd diwedd y llinell yn ymuno â'r llinell fel bod yr unigolyn nesaf ar y blaen yn gallu cropian trwy'r 'twnnel'. Mae'r patrwm yn parhau nes bod yr holl aelodau wedi cropian trwy'r 'twnnel'.
- Nesaf mae pob grŵp yn defnyddio'r bêl fel symbol o gwch a'i wthio o dan y bwa wrth gropian o dan y 'twnnel'. Ar ôl cyrraedd yr ochr arall gyda'r bêl bydd yr holl fyfyrwyr yn sefyll i fyny ac yn pasio'r bêl yn ôl i'r dechrau trwy osod eu dwylo ar eu pennau ar hyd y llinell.

Dawns

Motiffs Traphont Ddŵr Pontcysyllte

Cerddoriaeth: Guardians at the gate gan Kevin Rix, Audiomachine.

- Mewn grwpiau o 4-6 bydd y disgyblion yn creu coreograffi o fotiff sy'n 8 curiad o hyd.
- Mae motiff yn ddywediad symud sy'n crynhoi syniad a gaiff ei ailadrodd a'i ddatblygu trwy gydol y ddawns. Meddyliwch am y motiff fel corws mewn cân.
- Gwrandewch ar y gerddoriaeth a gyda'ch gilydd cyfrwch guriadau'r gerddoriaeth sy'n ailadrodd ei hun. Dyma ba mor hir fydd eu motiff.
- Dangoswch ddelwedd/delweddau o Draphont Pontcysyllte - edrychwch yn agos ar y siapiau ac ailadroddwch y patrymau ar y strwythur. Yn eu grwpiau dylid trafod yr hyn y maen nhw'n ei weld a chreu siapiau i'w datblygu'n motiff byr.
- Mae'r holl grwpiau yn perfformio eu motiff mewn undod (i gyd ar yr un pryd) ac yn ei ailadrodd 4 gwaith heb stopio.
- Rŵan gofynnir i chi greu darn i'w berfformio lle bydd pob grŵp yn perfformio eu motiff unwaith yn syth ar ôl ei gilydd. Wrth i'r gweddill aros am eu tro bydd yn rhaid iddyn nhw sefyll mewn siâp o'u dewis ac aros yn llonydd. (Mae'n bosib iddyn nhw newid eu siâp ar ddiwedd bob perfformiad motiff er mwyn bod yn gyfforddus). Parhau nes bod yr holl grwpiau wedi perfformio eu motiff unwaith.

Myfyrio

- Gall y motiff wynebu sawl cyfeiriad gwahanol. Ochr chwith, ochr dde, i'r cefn, i'r blaen a lletraws. Yna perfformio'r holl motiffs ynghyd gyda phob un yn wynebu cyfeiriadau gwahanol ac ailadrodd y motiffs (cyfanswm o 4 gwaith).



Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd
Cenedlaethol
Clwydian Range
and Dee Valley
National
Landscape



Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

Oeri

Dal y Pysgod

Atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd oeri'r corff yn iawn ar ôl gwneud ymarfer corff.

- Bydd angen sgarff neu ruban ar bawb.
- Dewiswch wirfoddolwr i arwain gyda symudiadau llif yr afon a meddyliwch am 3 siâp delw bywyd gwyllt i'r dosbarth ei adlewyrchu.
- Chwaraewch y gerddoriaeth a chael y disgyblion i adlewyrchu symudiadau o'r afon yn llifo gan yr arweinydd (i'r gerddoriaeth).
- Pan fydd y gerddoriaeth yn stopio mae'n rhaid i'r gwirfoddolwr wneud siâp delw bywyd gwyllt i'r holl ddosbarth ei efelychu.
- Ailadroddwch hyn 2 waith arall a gallwch newid yr arweinydd os y dymunwch.

Myfyrio

- Trafod y gwahanol ffyrdd y maen nhw'n perfformio'r motiff a sut oedden nhw'n teimlo am y perfformiadau? Sut y gwnaeth eu dewis o gerddoriaeth ddylanwadu ar y syniadau ar gyfer eu symudiadau?

Chwilio am fwy o adnoddau dysgu a gwybodaeth?
www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk